**Y Grŵp Trawsbleidiol ar Drais yn erbyn Menywod a Phlant / Cross-Party Group on Violence Against Women and Children**

**Dydd Gwener 27 Hydref 2023, 12.00-13.00 (ar Teams)**

**Cofnodion**

| **Yn bresennol** | **Ymddiheuriadau** |
|---|---|
| Sioned Williams AS<br>Jen Mills, Cymorth i Ferched Cymru<br>Stephanie Grimshaw, Cymorth i Ferched Cymru<br>Aliya Iftikhar, Cymorth i Ferched Cymru<br>Siôn Edwards, Staff Comisiwn y Senedd<br>Bethan Sayed<br>Carol Harris, Stori Cymru<br>Claire Short, Stop It Now! Cymru<br>Gemma Nokes, Calan DVS<br>Siân Gwenllian AS<br>Altaf Hussain AS<br>Jennie Henderson, Cerrig Camu Gogledd Cymru<br>Jodie Saunders, Merthyr Tudful Mwy Diogel<br>Fay Jones, AS<br>Rhianydd Williams, TUC Cymru<br>Johanna Robinson, Llywodraeth Cymru<br>Sarah Thomas, Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Merched – Cymru<br>Simon Borja, Cymru Ddiogelach<br>Sharon Smith, Stori Cymru | Mark Isherwood AS<br>Delyth Jewell AS<br>Jessica Laimann, Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru<br>WEN Cymru<br>Peredur Owen Griffiths AS<br>Melissa Wood, Barnardo's<br>Michelle Whelan, Calan DVS<br>Jack Sargeant AS |

| **Eitem** | **Yn arwain** |
|---|---|
| **12:00-12:05 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**<br><br>○ Diolchodd Sioned Williams AS, Cadeirydd y grŵp, i bawb am ddod i'r cyfarfod. Cyflwynodd yr agenda a thynnodd sylw at y trefniadau ymarferol ar gyfer y cyfarfod. | Sioned Williams AS |

| | |
|---|---|
| ○ Thema'r cyfarfod hwn yw cam-drin gan ddefnyddio technoleg. Gellir defnyddio technoleg mewn llawer o wahanol ffyrdd i fonitro a stelcian unigolion, yn ogystal ag aflonyddu a sarhau pobl. Byddwn yn canolbwyntio ar ddulliau o gam-drin gan ddefnyddio technoleg ac ar brofiadau personol gwleidyddion benywaidd o ddioddef cam-drin ar-lein.<br><br>○ Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol y grŵp trawsbleidiol cyn dechrau'r cyfarfod.<br><br>○ Gwnaeth AI atgoffa’r rhai a oedd yn bresennol fod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael ar gyfer y cyfarfod. | |
| **Cyfarfod cyffredinol blynyddol: Ethol deiliaid swyddi**<br><br>○ Cadeirydd: Sioned Williams AS (enwebwyd gan Siân Gwenllian AS)<br>○ Ysgrifenyddiaeth: Cymorth i Ferched Cymru (enwebwyd gan Sioned Williams AS, eiliwyd gan Rhianydd Williams, TUC Cymru) | Sioned Williams AS |
| **Cam-drin gan ddefnyddio technoleg a rôl y cyfryngau cymdeithasol**<br><br>○ Tynnodd SG sylw at sut y gall dyfeisiau clyfar gael eu defnyddio gan droseddwyr. Roedd yr enghreifftiau yn cynnwys tracio allweddi, clychau drysau ‘Ring’, dyfeisiau tag Apple, lleoliadau a rennir ar ddyfeisiau clyfar fel Alexa, a mwy.<br><br>○ Trafododd SG y broblem o gam-drin ar y cyfryngau cymdeithasol, a sut y gall casineb at fenywod ar-lein ddylanwadu ar bobl ac annog ymddygiadau problemus, gan | **Stephanie Grimshaw, Pennaeth Materion Cyhoeddus a Chyfathrebu, Cymorth i Ferched Cymru** |

| | |
|---|---|
| amlygu rhai achosion adnabyddus.<br><br>o Yna, cafwyd trafodaeth ar gam-drin rhwng cyfoedion. Gofynnodd SW i JR (y Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) i ymhelaethu ar sut mae'r strategaeth genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gysylltiedig â hyn.<br><br>o Cafwyd diweddariad gan JR ar y gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar y mater hwn, a'r berthynas rhwng y gwaith hwn â ffrydiau gwaith y Glasbrint. Mae llawer o gydgysylltu rhwng y ffrydiau gwaith dan sylw, gan fod y mater yn gorwedd o fewn y ffrydiau gwaith ar blant a phobl ifanc a mynd i'r afael â throseddu.<br><br>o Mae cynllun ar aflonyddu rhywiol rhwng cyfoedion yn cael ei ddatblygu. Mae angen taro cydbwysedd rhwng atal ymddygiadau rhywiol niweidiol a chymryd cyfrifoldeb.<br><br>o Mae llawer o ysgolion yn gwneud gwaith ar ddylanwadwyr, ac mae cydnabyddiaeth bod lefel o annibyniaeth yn perthyn i'r mater hwn. Fodd bynnag, os yw pawb yn brysur, gall fod yn fater sy'n cael ei ddiystyru. Mae rhai athrawon yn cael trafferth meithrin dealltwriaeth gadarn o'r mater hwn. | |
| **Profiadau personol gwleidyddion o ddioddef cam-drin ar-lein**<br><br>o Trafododd BS ei phrofiadau personol o ddioddef cam-drin ar- | **Bethan Sayed, Fay Jones AS** |

| | |
|---|---|
| lein fel Aelod o’r Senedd, a’r effaith a gafodd y profiadau hyn arni. Nid oedd yn gallu rhoi dyddiad o ran pryd y dechreuodd y cam-drin hwn, a dywedodd ei bod yn parhau i fod yn destun casineb ar-lein. Fodd bynnag, nid yw hi’n cael ei cham-drin mor gyson ag yr oedd pan gafodd ei hethol.<br><br>o Trafododd BS y teimladau o unigedd a ddeilliodd o’i phrofiadau, a soniodd am bwysigrwydd dangos undod mewn achosion pan fydd menywod mewn gwleidyddiaeth yn cael eu cam-drin, waeth beth fo’u plaid wleidyddol.<br><br>o Trafododd BS yr anawsterau sydd ynghlwm wrth geisio sicrhau bod llwyfannau cyfryngau cymdeithasol yn cydnabod bod cynnwys yn sarhaus. Soniodd hefyd am y diffyg craffu yn y maes hwn.<br><br>o Trafododd SW bwysigrwydd tynnu sylw at gam-drin a chefnogi menywod eraill – er enghraifft, annog mwy o fenywod i fod yn Aelodau o’r Senedd.<br><br>o Trafododd FJ sut y dechreuodd y casineb ar-lein y mae’n ei ddioddef. Dywedodd ei bod wedi cael ei cham-drin ar y cyfryngau cymdeithasol ar ôl iddi fynd i weithgaredd hela cyfreithlon ar ŵyl San Steffan. Cynyddodd yr ymosodiadau hyn yn gyflym, ac roeddent yn cynnwys ymdrechion i’w brawychu a bygythiadau o drais.<br><br>o Tynnodd FJ sylw at y ffaith nad ydym yn siarad digon am ganlyniadau casineb ar-lein, megis teimladau o gywilydd. Mae rhywedd yn rhan o’r darlun hwn. Er | |

| | |
|---|---|
| enghraifft, mae'r iaith a ddefnyddir yn aml yn cael ei dewis yn fwriadol i geisio bychanu menywod. Mae angen edrych ar brofiadau menywod a sut y maent yn cefnogi ei gilydd ar draws y pleidiau gwleidyddol.<br><br>o Tynnodd SW sylw at y ffaith bod hyn yn ymwneud â chasineb at fenywod a throseddau casineb yn erbyn menywod, a bod angen tynnu sylw ato waeth beth fo'r cymhelliant neu'r cysylltiad gwleidyddol. Trafodwyd y ffaith nad oes gan y cyfryngau cymdeithasol weithdrefnau addas ar gyfer ymdrin â cham-drin ar-lein, a’r ffaith bod y cymorth sydd ar gael i fenywod mewn rhai meysydd, er enghraifft llywodraeth leol, yn gymharol wan. Mae angen tynnu sylw at achosion cyhoeddus o gam-drin er mwyn atal y duedd hon rhag dod yn norm cymdeithasol.<br><br>o Dywedodd FJ ei bod yn tynnu sylw at gamdriniaeth yn ei ffordd ei hun. Mae angen i bawb gydweithio er mwyn rhoi terfyn ar gynnwys ar-lein sy’n hyrwyddo casineb at fenywod.<br><br>o Dywedodd BS y byddai'n fuddiol pe bai mwy o fenywod yn rhan o’r byd gwleidyddol. Fel menyw, os ydych yn lleisio'ch barn ar y cyfryngau cymdeithasol, rydych yn cael eich cam-drin yn fwy yn sgil eich presenoldeb yno. Mae'n bwysig bod mwy o fenywod yn rhan o’r byd gwleidyddol, fel y gallant ddweud eu dweud heb ofni adlach.<br><br>o Awgrymodd SW y gallem ysgrifennu at bob plaid wleidyddol yn y Senedd, gan ofyn iddynt fabwysiadu pecyn cymorth y TUC ar gyfer | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>**Cam i gymryd: Cymorth i Ferched Cymru i ddrafftio llythyr** |

| | |
|---|---|
| gweithleoedd a sicrhau bod y pecyn hwn yn cael ei drafod a'i ddefnyddio.<br><br>○ Trafododd JR y deunydd sydd ar gael ar weithleoedd ac aflonyddu menywod mewn mannau cyhoeddus, gan ddweud bod cyfrifoldeb ar sefydliadau i asesu eu diwylliant a'u prosesau eu hunain a chraffu arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn fannau diogel i fenywod.<br><br>○ Soniodd RW o TUC Cymru am y pecyn cymorth ar aflonyddu rhywiol, a rhoddodd ddiweddariad i'r grŵp am waith y TUC o ran sicrhau bod sefydliadau allweddol yn defnyddio'r pecyn cymorth. Fodd bynnag, nododd fod diffyg eglurder o ran pwy sydd â chyfrifoldeb dros sicrhau eu bod yn glynu wrth y pecyn. | |
| **Unrhyw fater arall**<br><br>○ Mae'r cyfarfod nesaf a drefnwyd yn gyfarfod a gynhelir ar y cyd â'r Grŵp Trawsbleidiol ar Fenywod. Bydd yn cael ei gynnal ar 24 Tachwedd rhwng 10:00 a 11:00 Cysylltwch â Jessica Laimann o Rwydwaith Cydraddoldeb Menywod (WEN) Cymru (jessica@wenwales.org.uk ) os ydych am ddod. | **Sioned Williams AS** |